



Cyngor Tref Aberteifi :-: Cardigan Town Council

Cofnodion yr is-bwyllgorau a gynhaliwyd yn Ystafell Gynhadledd 36 Pendre,
nos Fawrth, 20 Tachwedd 2018 am 6.00yh.

Minutes of the sub-committees held at the 36 Pendre Conference Room
on Tuesday, 20 November 2018 at 6.00pm.

Presennol/Present—Y Cyngorwyr/Councillors Shan Williams (*yn y gadair/in the chair*),
Clive Davies, Graham Evans, Richard Jones, Catrin Miles.

Ymddiheuriadau/Apologies—Y Cyng./Cllr John Adams-Lewis, Debra Griffiths, Siân Maehrlein,
Steffan Morgan, Yvonne O’Neill, Trystan Phillips.

Croeso’r Cadeirydd / Chair’s welcome

**Yn absenoldeb anorfod y Maer, croesawodd y Dirprwy Faer, y Cyng. Shan Williams,
bawb i’r cyfarfod.**

In the unavoidable absence of the Mayor, the Deputy Mayor, Cllr Shan Williams, welcomed everyone to the meeting.

Cynllunio / Planning

(Mae gan yr is-bwyllgorau bwerau dirprwyol i ddanfôn sylwadau ar ran y cyngor at Gyngor Sir Ceredigion.
Sub-committees have delegated powers to forward council observations to Ceredigion County Council.)

<i>Rhif y Cais / Application No.</i>	<i>Cyfeiriad / Address</i>	<i>Y Bwriad / Proposal</i>	<i>Sylwadau / Observations</i>
A181002	Llysteg, Gwbert Road	Demolition of garage and erection of two holiday units.	The council has reservations that flats for holiday lets are developed in a residential area. It is noted that the first floor overlooks the Caer Maria residence. The corrugated roof is not acceptable. For the stated reasons, the town council opposes the application.
A181064	Presbytery of Our Lady of the Taper Catholic Church	Re-modelling of the two towers and new porch extension.	<i>Mae’r cyngor yn cefnogi’r cais.</i> The council supports the application.

Gardd Brioude Garden

**Gardd Brioude: Trafod y cynllun. Blaenyrwyd sylwadau’r Cyng. John Adams-Lewis a’r
Cyng. Catrin Miles ymlaen ar 13/14 Tachwedd.**

**Darllenwyd llythyr oddi wrth Mrs Jacqui Llwyd Edwards at ymddiriedolwyr y Castell a
hefyd ymateb Mr Jac Davies iddi yn y cyfarfod.**

**Roedd yr aelodau yn anhapus gyda safon y cyfathrebu rhwng y Castell a chyngor y dref a
Phwyllgor Gefeillio Brioude/Aberteifi. Teimlwyd bod y penderfyniad ansensitif i
ddymchwel y mur heb ymgynghoriad gyda’r uchod a hefyd Mrs Jacqui Edwards a’r teulu
yn hollol annerbyniol. Roedd pryderon hefyd, oherwydd y bwlch yn y mur, am yr awel
gref o gyfeiriad Stryd y Cei, a hefyd y posibilrwydd y gwelir ceir yn parcio ar y safle.
Yn unol â dymuniad Mrs Edwards, awgrymwyd ni thrafodir y mater ymhellach.**

Brioude Garden: Discussion of the submitted plans. The observations by Cllr John Adams-
Lewis and Cllr Catrin Miles’ were forwarded on 13/14 November.

The letter from Mrs Jacqui Llwyd Edwards to the Castle trustees and the response from
Mrs Edwards to Mr Jac Davies were read at the meeting.

Members were displeased with the standard of communication between the Castle
trustees and the town council and the Brioude/Cardigan Twinning committee. The
insensitivity of demolishing the wall without full consultation with the aforementioned and

also with Mrs Jacqui Edwards and her family was compellingly expressed. Additional concerns included the wind tunnel created by the demolition of the section of wall which arguably might also encourage unauthorised car parking on the site. In accordance with Mrs Edwards' wishes, it was recommended that no further comment be forthcoming.

Pwll Nofio Aberteifi / Cardigan Swimming Pool

E-bost oddi wrth y Cyng. Steffan Morgan yn gwyntyllu problemau ariannol sydd yn wynebu'r Pwll Nofio. Gwahoddir cynghorwyr i gyfarfod yno nos Fercher, 21 Tachwedd am 8:00yh.

Trafodwyd yr ohebiaeth am ddyfodol y Pwll gyda phryder. Mae'r Cyng. Clive Davies wedi blaenyrru gwybodaeth berthnasol ymlaen at yr ymddiriedolwyr ynglŷn â grantiau a thudalen *justgiving Facebook*. Ymholodd y Cyng. Shan Williams am hyd y brydles sydd gan y cyngor sir ar y maes parcio. Mae'r cyngor sir yn cyfrannu tuag at gostau rhedeg y Pwll a hefyd gwersi nofio ysgolion. Disgwylir adwaith oddi wrth aelodau yn dilyn y cyfarfod.

E-mail from Cllr Steffan Morgan highlighting the financial crisis facing the trustees of the Pool. Councillors are invited to a meeting at the Pool on Wednesday, 21 November at 8:00pm.

The correspondence was discussed and much concern was mooted by members. Cllr Clive Davies has forwarded information to the trustees regarding fund-raising and creating a just-giving Facebook page. Cllr Shan Williams enquired as to the lease held by the county council for the car park. The authority does contribute towards the running costs and the school swimming lessons. A feed-back is expected from attending members.

Cae Chwarae Maesglas Play Area

A meeting was held on Monday, 12 November between the working group (Cllrs John Adams-Lewis, Clive Davies, Siân Maehrlein and Shan Williams) and Mr Steve Jones (Chief Executive) and Mr Llŷr Edwards (Director of Property Services) of Tai Ceredigion Cyf. The clerk of the council was also present.

The lease of the Maesglas Play Area was the only item on the agenda. A survey had been undertaken to check the land for methane gas emissions and flooding issues and all appeared to be in order.

The option presented by Tai Ceredigion was to build one one-bedroom bungalow and one two-bedroom bungalow on the site – both would be for the benefit of local disabled tenants and would be protected for future local tenants if and when necessary. The company is presently awaiting pen pictures of qualified tenants who are currently on the housing register. The building of the two proposed bungalows would allow sufficient space for the play area to be developed. Parking bays for vehicles are clearly displayed on the draft plans provided. A two metre pathway was proposed between the Aberystwyth Road properties and the land.

A 30-year lease with a peppercorn rent of £1.00 per annum is offered with an extension clause which will enable Lottery grants to be applied for. Final plans will be forwarded during the next six weeks.

Unrhyw Fater Arall / Any Other Business

- (a) **Llythyr oddi wrth Mr Martin Radley: yn gwyntyllu ei bryderon am gyflwr y darn tir sydd yn arwain i Stryd Wiliam o gefn Gwesty Commercial. Perchennog y tir yw cwmni Bragdy Felinfoel. Cytunodd y Cyng. Richard Jones hel rhagor o wybodaeth am y safle.**

Letter from Mr Martin Radley with concerns regarding the condition of the land owned by Felinfoel Brewery Co. leading to William Street from the rear of the Commercial Hotel. Cllr Richard Jones agreed to obtain further information regarding the location.

- (b) **E-bost oddi wrth Ms Rowan O'Neill yn gofyn am llythyr o gefnogaeth i brosiect Cymdeithas Aberteifi Society o fordaith yr "Albion" sydd i'w gynnal yn Ebrill 2019. Argymhellwyd bod llythyr o gefnogaeth yn cael ei anfon.**

E-mail from Ms Rowan O'Neill requesting a letter of support from the council to the Cymdeithas Aberteifi Society "Albion" project which is to be held in April 2019. It was recommended that a letter of support be forwarded.

- (c) **Llythyr o ymddiswyddiad y Cyng. Debra Griffiths fel cynrychiolydd y cyngor ar fwrdd llywodraethwyr Ysgol Uwchradd Aberteifi oherwydd pwysau gwaith.**
Argymhellwyd bod y mater yn cael ei drafod yng nghyfarfod llawn y cyngor ym mis Rhagfyr.
A letter of resignation from Cllr Debra Griffiths from her role as the council representative on the Ysgol Uwchradd Aberteifi board of governors due to pressure of work.
It was recommended that the matter be discussed at the full council meeting in December.
- (d) **Mae'r clerc wedi anfon llun o arwyddbost sydd wedi ei adael yn beryglus yng Ngardd Victoria ymlaen at Mr John Hadlow, Rheolwr Gerddi a Blodau'r cyngor sir.**
The clerk has forwarded a photograph of a signpost which has been left in a dangerous condition at Victoria Garden to Mr John Hadlow, Grounds Maintenance Manager of the county council on 15 November.
- (e) **Cais oddi wrth Samba Ndong (Cydlynnydd digwyddiadau Byw) Theatr Byd Bychan yn gwahodd cyngor y dref i gymryd rhan mewn gweithdy llusernau ar 25 Tachwedd. Cytunodd y Cynghorwyr Clive Davies a Shan Williams fynychu'r gweithdy.**
An application from Samba Ndong (Live Events Co-ordinator) Small World Theatre inviting the council to participate in the lantern-making workshop on 25 November.
Councillors Clive Davies and Shan Williams agreed to attend the workshop.
- (f) **Cais gan y clerc i'r cyngor ystyried gofyn caniatâd i gadw un o'r cerrig bach coffa sydd i'w gweld ar fur y cei, yn dynodi diwedd y Rhyfel Byd Cyntaf, yn y cwpwrdd yn Ystafell Radley.**
Argymhellwyd bod angen rhagor o wybodaeth oddi wrth y Cyng. Yvonne O'Neill.
Application by the clerk for the council to consider asking permission from the crafters to keep one of the remembrance pebbles, commemorating the end of the First World War, located on the wall of Prince Charles quay in the Ystafell Radley cabinet.
It was recommended to seek further information from Cllr Yvonne O'Neill.
- (g) **Cei'r Tywysog Siarl: E-bost oddi wrth Mr Dafydd Ladd. Cytunodd y Cyng. Catrin Miles wyntyllu'r broblem gyda Mr Ladd.**
Prince Charles Quay: E-mail from Mr Dafydd Ladd.
Cllr Catrin Miles agreed to clarify the problem with Mr Ladd.
- (h) **Arwyddion di-alcohol canol dref. Cytunwyd i'r clerc anfon cadarnhad at Mr Alan Garrod, swyddog y cyngor sir, yn cadarnhau penderfyniad y cyngor yng nghyngor 6 Tachwedd i osod arwyddion di-alcohol yn y Maes Sgrialu.**
Town Centre alcohol-free signage.
It was agreed for the clerk to confirm with Mr Alan Garrod, Community Safety & Civil Contingencies Manager of the county council, the town council's proposal at the 6 November meeting to place alcohol-free signage at the Skateboard Park.
- (i) **Cafwyd adroddiad gan y Cyng. Clive Davies bod cystadleuaeth Gwobrau Strydoedd Mawr Prydain Fawr 2018 wedi cymryd lle'n ddiweddar. Derbyniodd Aberteifi dystysgrif "Gwobr Gyda Chymeradwyaeth Seren ar ei Hesgyn Cymru". Diolchwyd i'r Cyng. Davies am ei holl waith i sicrhau llwyddiant i strydoedd Pendre, Stryd y Priordy a'r Stryd Fawr yn y dref.**
Cllr Clive Davies reported that The Great British High Street Awards 2018 had taken place recently and that Cardigan had received a "Highly Commended Rising Star Award Wales" at the event. Cllr Davies was thanked for his enthusiasm and energy in organising the success attributed to the Pendre, Priory Street and High Street areas of the town.

Gwahoddiadau i'r Maer / Invitations to the Mayor

Rhagfyr 9—Cinio Blynyddol Pwyllgor Gefeillio Brioude/Aberteifi, Gwesty'r Cliff, 12:00 am 12:30yp.
December 9—The Brioude/Cardigan Twinning Committee Annual Dinner at the Cliff Hotel, 12:00 for 12:30pm.

Dydd Sul, 16 Rhagfyr—Gwasanaeth Carolau RNLI, Eglwys Llandudoch am 6:30yh.

Sunday, 16 December—RNLI Christmas Carol Service, St Thomas' Church, St Dogmaels at 6:30pm

Dydd Iau, 18 Rhagfyr—Cinio Nadolig grŵp cefnogi Parkinsons Emlyn a Dyffryn Teifi, Clwb Rygbi Castellnewydd Emlyn, 12:00 am 12:30yp.

Thursday, 18 December—Christmas Lunch in support of the Emlyn and Teifi-Side Parkinsons group, Newcastle Emlyn Rugby Club, 12:00 for 12:30pm.

Er gwybodaeth / For information

Prynhawn Sadwrn, 1 Rhagfyr am 4:30 o'r gloch—Cynnau'r goleuadau Nadolig ger Neuadd y Dref.
Saturday, 1 December at 4:30pm—The Christmas lights switch-on outside the Guildhall.

Gorymdaith y Llusernau: Nos Wener, 7 Rhagfyr am 7:00yh.

Lantern Parade: Friday, 7 December at 7:00pm.